01 April 2019

Dear Responsible Officer

Condition A2 - Establishment in the EU or the EFTA

We are writing to all recognised awarding bodies in relation to Standard Condition of Recognition A2. Condition A2 requires all awarding bodies to be "ordinarily resident" or "legally established" in, or to have "a substantial presence in", a European Union (EU) or European Free Trade Association (EFTA) member state.

You will be aware that the United Kingdom (UK) invoked Article 50 of the Treaty on European Union (TEU) which began its withdrawal to leave the EU.

Negotiations on the future UK-EU relationship remain in progress and whilst we are able to reassure you that we are aware of the potential need to review Condition A2, we are not able to confirm what revisions, if any, will be required as yet. In the interim, we wish to reassure you that we would not determine an awarding body to be non-compliant with Condition A2 simply as a result of the awarding body no longer being ordinarily resident, legally established or having a substantial presence in the EU as a result of the UK withdrawing from the EU.

We will ensure that we keep you updated and will endeavour to notify you of any revisions, if and when required in a timely manner.

If you have any questions regarding this letter, please contact policy@qualificationswales.org.

Yours sincerely,

Jo Richards
Executive Director, Regulation

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

01 Ebrill 2019

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Amod A2- Sefydliad yn yr UE neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop

Rydym yn ysgrifennu at bob corff dyfarnu cydnabyddedig yng nghyswllt Amod Cydnabod Safonol A2. Mae amod A2 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu fod yn "preswylio fel arfer" neu wedi'i "sefydlu'n gyfreithiol" mewn, neu gael "presenoldeb sylweddol" yn un o aelod-wladwriaethaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA).

Byddwch yn ymwybodol bod y Deyrnas Unedig (DU) wedi tanio Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd (TEU) a ddechreuodd y broses o adael yr UE.

Mae trafodaethau ar y gweill ar y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol ac er ein bod yn gallu eich sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r angen posibl i adolygu Amod A2, ni allwn gadarnhau pa ddiwygiadau, os o gwbl, fydd eu hangen. Yn y cyfamser, rydym am eich sicrhau na fyddem yn penderfynu nad yw corff dyfarnu yn cydymffurfio ag Amod A2 o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r corff dyfarnu bellach yn preswylio fel arfer, wedi'i sefydlu'n gyfreithiol neu fod ganddo bresenoldeb sylweddol yn yr UE o ganlyniad i'r DU yn tynnu allan o'r UE.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a byddwn yn ceisio eich hysbysu am unrhyw ddiwygiadau, os a phan fydd eu hangen mewn modd amserol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch â polisi@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Jo Richards
Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio